



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru



2019-2025

Agenda Cydweithredol ar
Cyfer Ymchwil, Monitro
a Dadansoddi Morol

Tabl Cynnwys

	Acronymau	3
	Rhagair gan y Gweinidog	4
1.	Cyflwyniad	5
2.	Cyd-destun polisi a thystiolaeth	6
3.	Nod y Strategaeth hon	8
4.	Blaenoriaethau o ran cwmpas a thystiolaeth lefel uchel	9
5.	Sicrhau economi forol gynaliadwy	10
6.	Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn	12
7.	Byw o fewn terfynau amgylcheddol	14
8.	Llywodraethu da, cydweithio, cyfnewid gwybodaeth a defnyddio gwyddoniaeth gadarn yn gyfrifol	16
9.	Gweithredu a Chyflawni	19
10.	Atodiad 1 – Dolenni i Ffynonellau Tystiolaeth Allweddol	20
11.	Atodiad 2 – Grwpiau Tystiolaeth Forol Allweddol y DU	22

Rhagair gan y Gweinidog

Mae datblygu morol cynaliadwy, diogelu ecosystemau morol ac annog mynediad i'r arfordir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn faterion o bwys mawr i Gymru. Mae ein harfordir a'n moroedd trawiadol, ynghyd â digonedd o amrywiaeth morol, yn rhan annatod o apêl unigryw Cymru ac mae'n denu miliynau o bobl yma bob blwyddyn.

Mae bygythiad y newid yn yr hinsawdd, ymhlith materion eraill sy'n pwyso, yn golygu na fu erioed amser pwysicach i wella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'n hamgylchedd morol. Mae Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru, a grëwyd mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yn darparu trosolwg o'r blaenoriaethau lefel uchel o ran tystiolaeth forol yng Nghymru a fframwaith ar gyfer ymateb i'r heriau hynny. Bydd y Strategaeth hon yn cefnogi'r gwaith o ddarparu tystiolaeth forol er mwyn gweithredu, monitro a gwerthuso polisiâu a chynlluniau morol Llywodraeth Cymru a CNC sy'n ceisio adfer a diogelu bioamrywiaeth y môr, hyrwyddo defnydd morol cynaliadwy, diogelu ein harfordiroedd a gwella ein cymunedau arfordirol.

Mae diogelu ein hamgylchedd morol a sicrhau defnydd cynaliadwy ohono yn greiddiol i'n hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Bydd Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru yn cefnogi'r ymrwymadau hyn drwy gryfhau ein dealltwriaeth o amgylchedd morol Cymru a'i werth i'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn cydnabod, er mwyn cyflawni ein nodau, ei bod yn dyngedfennol ein bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ledled y DU a thu hwnt, gan ddod â'r arbenigedd angenrheidiol at ei gilydd i alluogi dull effeithlon a chyfannol o gasglu tystiolaeth i ategu rheolaeth effeithiol o'n moroedd.

Mae'n bleser gennyf argymhell Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru. Byddwn yn annog partneriaid a sefydliadau ledled Cymru, y DU a thu hwnt i weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a CNC i helpu i ddatblygu ein sail tystiolaeth forol a chyflawni ein nod ni i gyd o 'gefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol yn fiolegol'.



Lesley Griffiths AC

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

1. Cyflwyniad

- 1.1** Mae moroedd Cymru yn cwmpasu tua 30,000km² (o gymharu ag arwynebedd tir o tua 21,000km²) gyda bioamrywiaeth o fflora a ffawna sy'n cynnwys rhywogaethau o bwys rhyngwladol a chynefinoedd ar gyfer rhywogaethau'n amrywio o adar drycin Manaw a maelgwn i wellt y gamlas a gwelyau marchfisglod.
- 1.2** Mae canran fawr o boblogaeth Cymru yn byw ac yn gweithio ar yr arfordir ac mae'r amgylchedd morol yn cynnig llw o fanteision sy'n cefnogi lles cymunedau'r arfordir a chymdeithas yn ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n ffurfio'r ecosystem forol ehangach ac yn darparu 'gwasanaethau ecosystem' fel atafaelu carbon, ailgylchu maetholion a lliniaru erydu arfordirol
 - bwyd o bysgod a physgod cregyn, ac ynni adnewyddadwy sy'n deillio o'r gwynt, tonnau a llanw
 - swyddi i gymunedau lleol sy'n ymwneud, er enghraifft, â physgodfeydd, dyframaethu, ynni adnewyddadwy, twristiaeth a hamdden
 - cefnogi lles ehangach drwy gynnig mynediad i'r arfordir a darparu cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ymchwil.
- 1.3** Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi datblygu'r Strategaeth hon ar y cyd gan eu bod yn gyrrff cyhoeddus allweddol yng Nghymru sy'n gwneud gwaith yn ymwneud â thystiolaeth sy'n berthnasol i'n hamgylchedd morol. Mae'r ddau sefydliad yn arwain ystod amrywiol o gyfrifoldebau o fewn yr amgylchedd morol sy'n cwmpasu cynllunio gofodol, trwyddedu, gorfodi, cadwraeth ac adrodd cenedlaethol. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r gwaith hwn bydd angen cynnwys cyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol eraill o'r sector morol. Y gobaith yw y daw'r cyrff hyn yn bartneriaid i'r Strategaeth hon yn y dyfodol.
- 1.4** Mae'r Strategaeth hon wedi'i datblygu i ddiffinio blaenoriaethau lefel uchel a strategol ar gyfer tystiolaeth forol yng Nghymru ac i ddarparu fframwaith ar gyfer casglu'r dystiolaeth hon, gan wella cydweithredu ar yr un pryd. Mae'r dystiolaeth yn cynnwys ymchwil a datblygu, monitro a gwyliadwriaeth, a dadansoddi a synthesis eilaidd.
- 1.5** Mae'r Strategaeth hon yn cwmpasu'r anghenion o ran tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion a'n polisiau ar gyfer yr ardal forol rhwng dŵr uchel a'r ffiniau alltraeth â chenhedloedd eraill (e.e. Iwerddon a Lloegr). Fodd bynnag, nid oes ffin ofodol lem wedi'i phennu ar gyfer y Strategaeth hon gan y gall y gofynion tystiolaeth i gefnogi rheolaeth ymestyn rhywfaint o ran tir yn dibynnu ar y mater dan sylw. Yn benodol, adlewyrchir y dystiolaeth ynghylch cymunedau arfordirol, materion amgylcheddol a'r economi yn y Strategaeth lle y bo'n berthnasol.


2. Cyd-destun polisi a thystiolaeth

- 2.1** Gweledigaeth Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr amgylchedd morol yw bod gennym yng Nghymru '[f]oroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol yn fiolegol'. Byddwn yn ceisio cyflawni'r weledigaeth hon drwy:
- ddull sy'n seiliedig ar ecosystemau lle caiff adnoddau naturiol eu rheoli'n gynaliadwy ac mae'n moroedd yn iach ac yn gadarn, gan gefnogi economi gynaliadwy a ffyniannus
 - gwella mynediad, dealltwriaeth a mwynhad o'r amgylchedd morol a threftadaeth ddiwylliannol, iechyd a lles y glannau
 - Twf Glas. Lle mae mwy o swyddi a chyfoeth yn cael eu creu ac yn helpu cymunedau arfordirol i ddod yn fwy cadarn, ffyniannus a theg gyda diwylliant bywiog
 - defnyddio technolegau carbon isel mewn modd cyfrifol, lle mae ardal forol Cymru yn gwneud cyfraniad cryf at ddiogelu ffynonellau ynni ac at dargedau o ran allyriadau sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd.
- 2.2** Mae cynnal a gwella amgylchedd morol Cymru er lles cenedlaethau'r dyfodol yn rhan annatod o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn gyson â'n polisiâu a'n camau gweithredu er mwyn cyflawni neu gynnal Statws Amgylcheddol Da (GES) yn ein moroedd. Mae dull o'r fath yn gofyn am ddatblygu targedau, dangosyddion, meini prawf asesu a rhaglenni monitro priodol i gaffael data perthnasol i'n helpu i ddeall cyflwr ein hamgylchedd morol a chynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau.
- 2.3** Gallwn gefnogi ein nodau llesiant drwy sicrhau bod ein hadnoddau morol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy – dyma'r hyn a elwir gennym yn 'datblygu cynaliadwy'. Mae Cynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn darparu polisi a chanllawiau sy'n nodi lle bydd y Llywodraeth yn canolbwyntio ei hadnoddau a'i chefnogaeth.
- 2.4** Mae gofalu am ein hamgylchedd morol cyfoethog ac amrywiol yn cael ei ystyried gan lu o strategaethau, polisiâu a deddfwriaeth ar lefel Cymru, y DU a lefelau rhyngwladol fel y dangosir at ddibenion dangosol syml yn Ffigur 1.
- 2.5** Mae tystiolaeth gadarn yn hanfodol er mwyn cyflawni'r polisiâu, y cynlluniau a'r deddfwriaeth hyn. Nid yw casglu, dehongli a gweithredu ar dystiolaeth yn rhywbeth y gall un sefydliad ei wneud ar ei ben ei hun; felly, i fod yn llwyddiannus, bydd angen i'r diwydiant, y Llywodraeth, academyddion, cyrff anllywodraethol a rhanddeiliaid eraill gydweithio yn y maes hwn. Mae'r angen am hyn yn cael ei grynhoi yn "Foresight Future of the Sea"¹:
- "[Of the] four structural [marine] issues that the UK, often in partnership with the rest of the world, must address in order to adapt and succeed in the future ... First and foremost is our 'sea blindness', a widespread lack of understanding of the sea and its value... The consequence of this is an increased risk of policy makers, industry and the public underestimating the opportunities from the sea, and the implications of damaging its environment."

¹ www.gov.uk/government/publications/future-of-the-sea--2

Ffigur 1

Cysylltiadau rhwng rhwydweithiau/prosiectau tystiolaeth a phrif ddeddfwriaeth/polisi yn amgylchedd morol Cymru.



3. Nod y Strategaeth hon

- 3.1** Er mwyn cyflawni'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer yr amgylchedd morol, bydd angen i Gymru wella ei gallu ym maes gwyddoniaeth forol a chasglu a dehongli data. Yn benodol, mae'n amlwg y bydd casglu tystiolaeth newydd a'i dadansoddi yn hanfodol i ddeall ac ymateb i'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n codi o ymadael â'r UE a'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r ddogfen hon yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer casglu, adrodd a defnyddio tystiolaeth a data morol yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer o'r blaenoriaethau tystiolaeth yn gyffredin ledled y DU a bod cyllid yn aml yn cael ei ddarparu ar y lefel hon hefyd. Bydd y Strategaeth hon, felly, yn ceisio cryfhau'r rhan a chwaraeir gan Gymru yn rhaglenni partneriaid gan gynnwys yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) a'r Pwyllgor Cydlynu Gwyddoniaeth Forol (MSCC).
- 3.2** Diben penodol y Strategaeth yw nodi'r blaenoriaethau lefel uchel, strategol o ran tystiolaeth forol sydd eu hangen i gefnogi polisiau a chynlluniau morol Llywodraeth Cymru a CNC drwy:
- ddarparu fframwaith i gefnogi casglu tystiolaeth forol a'i defnyddio'n well (Adrannau 8 a 9);
 - llywio'r gwaith o weithredu, monitro ac adolygu camau gweithredu i fodloni'r blaenoriaethau o ran tystiolaeth (Adrannau 5, 6 a 7);
 - gwella cydweithio, cydgysylltu a rhannu gwybodaeth wyddonol ymhlith rhanddeiliaid tystiolaeth forol Cymru (Adran 8); a
 - helpu i gysoni a datblygu capasiti tystiolaeth forol Cymru a hyrwyddo arloesedd (Adran 8).
- 3.3** Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r blaenoriaethau lefel uchel sydd eu hangen i sicrhau bod tystiolaeth forol yng Nghymru yn cefnogi'r broses o gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd morol. Bydd y blaenoriaethau hyn yn esblygu wrth i dystiolaeth forol esgor ar ddealltwriaeth newydd a newidiadau ym mholisiau a rhaglenni'r Llywodraeth. Rhagwelir y bydd rhaglenni tystiolaeth manylach yn cael eu datblygu i gyflawni'r blaenoriaethau lefel uchel hyn.
- 3.4** Mae'r Strategaeth hon yn gosod diben cyffredin i gyrff yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb am gasglu a dadansoddi data a gwybodaeth forol, ac adrodd ar dystiolaeth². Mae'n cydnabod y bydd cyllid sector cyhoeddus yn parhau i fod yn dynn ac y bydd, ynghyd â heriau ymadael â'r UE, yn golygu y bydd blaenoriaethu a chydweithio effeithiol yn hanfodol i ddarparu sylfaen gadarn o dystiolaeth forol i Gymru. Felly, gobeithir y bydd cyrff eraill yn defnyddio'r Strategaeth i lywio eu rhaglenni tystiolaeth eu hunain.
- 3.5** Mae amrywiaeth o brosiectau sy'n dangos tystiolaeth forol yn cael eu darparu ar ran Llywodraeth Cymru a CNC. Mae'r Strategaeth hon yn cydnabod y gallai'r prosiectau hyn gael eu halinio'n well yn aml ac mae'n ceisio darparu fframwaith a phroses i gefnogi arbedion effeithlonrwydd posibl o'r fath.
- 3.6** Bydd llawer o flaenoriaethau o ran tystiolaeth forol yn gyffredin ledled Cymru a Lloegr, y DU, neu'n rhyngwladol. I'r perwyl hwn, bydd cydweithio â phartneriaid y tu allan i Gymru yn hanfodol, er enghraifft drwy'r Grŵp Llywio Tystiolaeth Forol a Physgodfeydd (MFESG), yr MSCC ac Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI).

² Mae'r cyrff hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, CNC, Llywodraeth leol, Cefas, JNCC, diwydiant, cyrff anllywodraethol a'r sectorau ymchwil ac academiaidd ehangach.

4. Blaenoriaethau o ran cwmpas a thystiolaeth lefel uchel

4.1 Mae moroedd y DU yn adnodd a rennir ac mae angen i ni weithio gyda gweinyddiaethau eraill yn y DU i sicrhau amgylchedd iach ac economi forol gynaliadwy. Mae gweledigaeth y DU a Chymru ar gyfer yr amgylchedd morol yn gydnaws â darparu cefnforoedd a 'moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol yn fiolegol'. Mae amcanion morol lefel uchel y DU sydd ynghlwm wrth y weledigaeth gyffredin hon, fel y'u cynhwysir³, yn natganiad polisi morol y DU, yn ffurfio sail y blaenoriaethau yn y Strategaeth hon. Y rhain yw:

- sicrhau economi forol gynaliadwy
- sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn
- byw o fewn terfynau amgylcheddol
- hyrwyddo llywodraethu da
- defnyddio gwyddoniaeth gadarn yn gyfrifol

4.2 Mae'r gofynion tystiolaeth ar gyfer ein hamcanion polisi yn y maes morol yn aml yn rhai trawsbynciol, sy'n gofyn am ystod o dystiolaeth i gefnogi'r gwaith cyflawni. Mae llawer o'r blaenoriaethau tystiolaeth sy'n dilyn yn berthnasol i fwy nag un o'r amcanion morol lefel uchel; mae pob blaenoriaeth wedi'i neilltuo i'r amcan y tybir ei fod yn fwyaf perthnasol.

4.3 Y blaenoriaethau tystiolaeth yn fersiwn gyntaf (2019) y Strategaeth hon yw'r rhai a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a CNC, ond bydd llawer o'r rhain yn cael eu rhannu a'u trafod gan randdeiliaid morol eraill. Mae'r Strategaeth yn ceisio gosod diben cyffredin i gyrff yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb am gasglu a dadansoddi data a gwybodaeth forol, ac adrodd ar dystiolaeth. Y bwriad yw y bydd y gwaith parhaus o ddatblygu, gweithredu ac adolygu'r Strategaeth yn cynnwys mwy a mwy o randdeiliaid allweddol eraill yn y maes morol yn y blynyddoedd i ddod.

5. Sicrhau economi forol gynaliadwy

5.1 Mae datblygu cynaliadwy nid yn unig yn cyfrannu at ein heconomi ond hefyd yn cefnogi amcanion llesiant ehangach. Mae pob sector morol yn cefnogi'r economi mewn rhyw ffordd ac mae'r rhestr ganlynol yn nodi'r sectorau hynny sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru ar hyn o bryd:



- Agregau
- Dyframaeth
- Amddiffyn yr arfordir
- Amddiffyn
- Carthu a gwaredu
- Pysgodfeydd (masnachol, ymfudol a hamdden)
- Olew a nwy
- Porthladdoedd a morgludo
- Ynni adnewyddadwy
- Ceblau o dan y môr
- Twristiaeth a hamdden
- Trin a gwaredu dŵr

Nodau polisi strategol

5.2 Yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyfredol o faterion a chyfleoedd twf yn y dyfodol a nodir yn WNMP, mae sectorau morol sydd â photensial penodol ar gyfer twf cynaliadwy yn cynnwys:

- ynni adnewyddadwy morol
- porthladdoedd a morgludo
- dyframaeth
- twristiaeth arfordirol

Er bod pysgodfeydd yn cael eu trafod o fewn WNMP nid ydynt yn cael eu hystyried fel maes twf posibl eu hunain. Fodd bynnag, mae potensial i arallgyfeirio a gwneud y diwydiant yn fwy cadarn yn ogystal â'r cyfle i sicrhau'r manteision gorau i Gymru fel rhan o ymadael â'r UE.

Fframwaith sylfaen dystiolaeth gyfredol

5.3 Mae ffynonellau tystiolaeth allweddol ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn yn cynnwys:

- Porth Adroddiad ar Dystiolaeth Forol a Chynllunio Cymru
- y Gyfnewidfa Data Morol

5.4 Mae sefydliadau a rhwydweithiau sy'n darparu data a thystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r maes blaenoriaeth hwn yn cynnwys, er enghraifft:

- Llywodraeth Cymru
- CNC
- Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
- Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a dyframaethu (CEFAS)

- y Rhwydwaith Data a Gwybodaeth Amgylchedd Morol
- MMO
- Prosiect Diwydiant ar y cyd – Ynni Gwynt ar y Môr, Ynni Adnewyddadwy ar y Môr (ORJIP)
- Swyddfa Hydrograffig y DU (UKHO)
- Grŵp Tystiolaeth Moroedd Cynhyrchiol y DU (PSEG)
- Ystâd y Goron (CE)



Blaenoriaethau presennol o ran tystiolaeth

Ynni Adnewyddadwy Morol

- Deall y cyfleoedd a'r goblygiadau ariannol ar gyfer defnyddio gwahanol dechnolegau ynni adnewyddadwy yn nyfroedd Cymru i esblygu a chefnogi polisïau WNMP.

Dyframaeth

- Sicrhau'r dystiolaeth orau sydd ar gael o botensial dyframaethu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn seiliedig ar bamedrau amgylcheddol a chymdeithasol a chyfleoedd a chyfyngiadau eraill.

Porthladdoedd a Morgludo

- Gwella ein gwybodaeth am gyflwr diwydiant pysgota Cymru (e.e. capasiti cychod, defnydd offer) a'r seilwaith cysylltiedig (e.e. cyfleusterau porthladdoedd ac arwerthiannau).

Twristiaeth Arfordirol

- Datblygu dealltwriaeth o ddisbarthiad a dwyster gweithgarwch hamdden a thwristiaeth arfordirol a morol, i gefnogi'r gwaith o nodi meysydd defnydd allweddol a'r defnydd posibl yn y dyfodol a dealltwriaeth ohono.

Pysgodfeydd

- Nodi cyfleoedd i'r diwydiant pysgota arallgyfeirio a/neu gynyddu gwerth gweithgareddau cyfredol a chynllunio yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.
- Gwella ein dealltwriaeth o ble mae pobl yn pysgota (gan gynnwys pysgotwyr hamdden) a pham, sut mae patrymau pysgota yn newid, a pham, a beth yw'r goblygiadau economaidd-gymdeithasol o ddisodli gweithgareddau pysgota.
- Gwella'r data asesu stoc rheolaidd sydd ar gael ar gyfer pysgodfeydd yn ôl y gofyn, yn enwedig mewn perthynas â physgodfeydd pysgod a physgod cregyn sydd o bwys allweddol i ddiwydiant pysgota Cymru.
- Gwella ein dealltwriaeth o bysgod ymfudol a'u mudo drwy'r amgylchedd morol.

Tystiolaeth Ategol Ehangach

- Datblygu dull holistaidd o bennu/deall gwerth economaidd a chymdeithasol moroedd Cymru.
- Deall a sicrhau bod tystiolaeth ar gael am gyfyngiadau a chyfleoedd economaidd penodol i'r sector yn nyfroedd Cymru. Canolbwyntir yn y lle cyntaf ar bysgota, dyframaethu, ynni adnewyddadwy ac agregau
- Deall sut i wella bioddiogelwch i rwystro effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol.

6. Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn

6.1 Mae ein moroedd yn rhan gynhenid o'n hanes, ein heconomi a'n ffordd o fyw. Mae canran fawr o boblogaeth Cymru yn byw ac yn gweithio ar yr arfordir, gyda'r holl ddinasoedd mawr a llawer o drefi pwysig wedi eu lleoli yno hefyd. Mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid cyflawni yn datblygu, gweithredu a gwerthuso polisiau sy'n ymwneud ag amrywiaeth o agweddau, gan gynnwys adfywio'r arfordir, treftadaeth, newid arfordirol a llifogydd a'r newid yn yr hinsawdd.



Nodau polisi strategol

6.2 Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lleihau tlodi a chefnogi'r broses o ddatblygu cymunedau arfordirol bywiog, mwy cyfiawn, diwylliannol wahanol, cydlynus a chydnerth
- Hyrwyddo mwynhad a stiwardiaeth ein harfordir a'n moroedd a'u hadnoddau drwy annog mynediad teg a diogel i'r amgylchedd morol, gan ddiogelu a hyrwyddo tirweddau, morweddau ac asedau treftadaeth gwerthfawr
- Lleihau peryglon llifogydd ac erydu arfordirol gan annog cymaint â phosibl o gyfleoedd i addasu'r arfordir yn naturiol

Fframwaith tystiolaeth cyfredol

6.3 Mae ffynonellau tystiolaeth allweddol ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn yn cynnwys:

- Adroddiad Tystiolaeth Forol a Phorth Tystiolaeth Cynllunio Cymru
- Datblygu teipoleg arfordirol gymunedol ar gyfer Cymru
- Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol: Datblygu Strategaeth Genedlaethol i Gymru
- Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Asesiadau Cymeriad Morwedd Cenedlaethol a Lleol ar gyfer Cymru
- Adroddiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
- Confensiwn Oslo a Paris (OSPAR) gan gynnwys Adroddiad ar Statws Ansawdd
- Adroddiadau dŵr ymdrochi
- Asesiadau Ansawdd Pysgod Cregyn
- Mapiau perygl llifogydd ac erydiad

6.4 Mae sefydliadau a rhwydweithiau sy'n darparu data a thystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r maes blaenoriaeth hwn yn cynnwys:

- CADW
- CNC
- Canolfan Monitro Arfordir Cymru
- Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas)
- Y Sefydliad Rheoli Morol (MMO)

- Canolfan Ewropeaidd yr Amgylchedd ac Iechyd Dynol
- Swyddfa Hydrograffeg y DU (UKHO)
- Grŵp Tystiolaeth Moroedd Glân a Diogel y DU (CSSEG), Grŵp Tystiolaeth Moroedd Iach ac Amrywiol yn Fiolegol (HBDSEG), PSEG, a Fforwm Sain Tanddwr



© Hawlfraint y Goron (2006) Croeso Cymru

Blaenoriaethau presennol y dystiolaeth

Cynyddu cydnerthedd cymunedol

- Gwella dealltwriaeth o'r potensial ar gyfer manteision cymunedol arfordirol presennol ac yn y dyfodol (gan gynnwys manteision diwylliannol a chymdeithasol) o weithgareddau morol drwy weithredu cynllunio morol.
- Datblygu ein dealltwriaeth o'r ffordd orau o feithrin cydnerthedd mewn ardaloedd arfordirol, gan gynnwys gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer addasu'r arfordir yn naturiol, drwy gasglu tystiolaeth a dadansoddi i gefnogi'r gwaith o weithredu cynlluniau a pholisïau rheoli traethlin yn well ledled Cymru.

Cynyddu mynediad i'r amgylchedd morol

- Data ar ddefnydd pobl o'r amgylchedd morol (a monitro).
- Tystiolaeth am y mecanweithiau achosol sy'n cysylltu'r amgylchedd morol ag iechyd pobl a llesiant goddrychol.
- Cwblhau mapio nodweddion morlun ar gyfer holl ddyfroedd Cymru.
- Deall a sicrhau bod tystiolaeth ar gael ar gyfyngiadau a chyfleoedd cymdeithasol sy'n benodol i'r sector yn nyfroedd Cymru. Canolbwyntir yn y lle cyntaf ar bysgota, dyframaethu, ynni adnewyddadwy ac agregau.
- Datblygu technegau monitro ac asesu ansawdd dŵr rhatach a mwy cywir, gan gynnwys:
 1. Gwell dealltwriaeth o ffynonellau ac effaith cemegau sy'n dod i'r amlwg ar ecoleg ac ar faterion iechyd dynol fel ymwrthedd gwrthficrobaidd.
 2. Gwell dealltwriaeth o'r modd y mae cymysgeddau o gemegau yn effeithio ar ecoleg ynghyd â'r potensial ar gyfer effeithiau cyfunol gyda phwysau amgylcheddol eraill, a sut i asesu cost cemegau sy'n risg i'r amgylchedd dŵr ac iechyd dynol.
- Datblygu gallu gwell i bennu achosion llygredd gwasgaredig mewn dalgylchoedd.
- Gwell dealltwriaeth o ddynameg pathogenau bacteriol er mwyn gwella'r broses o reoli Dyfroedd Ymdrochi a Physgod Cregyn.

Llifogydd ac Erydu Arfordirol

- Datblygu dealltwriaeth ymhellach o effeithiau addasu'r arfordir ar gynefinoedd morydol ac arfordirol.
- Parhau i ddatblygu rhagamcanion o'r model newid yn yr hinsawdd drwy bamedreiddio model gwell, gan gynnwys y rhagfynegiadau UKCP18 diweddaraf.
- Gwell dealltwriaeth o'r newidiadau posibl i safleoedd gwarchoddedig, fel morfeydd heli, sy'n cyfrannu at ddiogelu'r arfordir.

7. Byw o fewn terfynau amgylcheddol

7.1 Mae ecosystemau morol yn ddynamig ac yn darparu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau yr ydym yn dibynnu arnynt, megis ffynhonnell fwyd iach, amddiffyniad rhag trychinebau naturiol a rheoleiddio ein hinsawdd. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i adnoddau naturiol Cymru gael eu rheoli'n gynaliadwy er mwyn cynnal a gwella ein hecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu.

Nodau polisi strategol

7.2 Mae'r rhain yn cynnwys:

- cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau morol a'r manteision y maent yn eu darparu i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy gefnogi'r gwaith o gyflawni a chynnal Statws Amgylcheddol Da (GES)
- diogelu, gwarchod, adfer a gwella bioamrywiaeth y môr i atal a gwrthdroi ei ddirywiad gan gynnwys drwy:
 - ddatblygu a chwblhau rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA) sy'n ecolegol gydlynol ac yn cael eu rheoli'n dda
 - datblygu rhaglen gynhwysfawr wedi'i blaenoriaethu o fonitro bioamrywiaeth y môr er mwyn llywio asesiadau, adrodd a rheoli cenedlaethol a byd-eang.

Fframwaith tystiolaeth cyfredol

7.3 Mae'r ffynonellau tystiolaeth allweddol ar statws amgylcheddol i'w defnyddio yn y maes blaenoriaeth hwn yn cynnwys:

- Adroddiad Tystiolaeth Forol a Phorth Cynllunio Llywodraeth Cymru, y Porth-Daear Lle, Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac adrodd Deddf y Môr
- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol CNC (SoNaRR), Datganiadau Ardal, Cronfa Ddata Safleoedd Arbennig ac Asesiadau Cyflwr Dangosol Nodweddion ar gyfer Safleoedd Morol Ewropeaidd (EMS)
- Adroddiad Adran 18 CNC o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010
- Adroddiadau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Erthygl 17) ac Amrywiaeth Fiolegol (Erthygl 26)
- Sefyllfa Byd Natur – adroddiadau Cymru
- Adroddiadau Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol
- Adroddiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD)
- OSPAR yn cynnwys Adroddiad ar Statws Ansawdd
- Asesiadau Ecosystemau Cenedlaethol y DU
- Partneriaeth Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd ar y Môr (MCCIP) a chardiau adrodd ac UKCP18.

7.4 Mae sefydliadau a rhwydweithiau sy'n darparu data a thystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r maes blaenoriaeth hwn yn cynnwys:

- CNC
- JNCC
- Cefas
- CSSEG

- Directory of the Marine Observing Systems
- EMODnet
- HBDSEG, Ocean Processes Evidence Group (OPEG)
- MEDIN
- Underwater Sound Forum
- ORJIP.

Blaenoriaethau presennol y dystiolaeth

Diogelu cydnerthedd ecosystemau morol

- Deall cydnerthedd ac effeithiau pwysau allweddol ar ecosystemau morol Cymru, gan gynnwys:
 1. Gwella ein dealltwriaeth o effeithiau posibl datblygiadau ynni adnewyddadwy ar rywogaethau symudol (pysgod morol ac ymfudol, mamaliaid morol, adar y môr)
 2. Gwella ein dealltwriaeth o effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd ar ecosystemau'r môr, yn enwedig mewn perthynas â stociau pysgod (gan gynnwys clefydau a dyframaeth), nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, a chynefinoedd a rhywogaethau Adran 7
 3. Gwella ein dealltwriaeth o'r effeithiau posibl y gallai sŵn tanddwr a dirgryniad (yn arbennig o brosiectau seilwaith mawr) eu cael ar yr amgylchedd morol
 4. Gwella ein dealltwriaeth o ffynonellau a lledaeniad sbwriel môr yn nyfroedd Cymru
 5. Deall effeithiau rhywogaethau goresgynnol estron a llwybrau cyflwyno posibl
 6. Deall ymddygiad mudol pysgod ymfudol yn well.
- Deall a sicrhau bod tystiolaeth ar gael am gyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol penodol i'r sector yn nyfroedd Cymru. Canolbwyntir yn y lle cyntaf ar bysgota, dyframaethu, ynni adnewyddadwy ac agregau.
- Datblygu ein gwybodaeth am ddsbarthiad gofodol stociau pysgod Cymru, gan gynnwys dosbarthu a sensitifrwydd ymfudiad pysgod, bwydo, bridio (tir silio a meithrinfeydd) a chynefinoedd cysylltiedig. Canolbwyntir ar rywogaethau su'n cael eu nodi fel rhai sydd â phwysigrwydd ecolegol neu economaidd uchel.



Diogelu, cadw, adfer a gwella ecosystemau morol

- Datblygu dealltwriaeth strategol o ofynion posibl ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â digolledu cynefinoedd a gweithgareddau yn nyfroedd Cymru, a chyfleoedd i ddarparu iawndal ac adfer ecosystemau yn ehangach, gan ystyried y manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach (gweithdrefnol, gofodol ac amserol).
- Gwella ein gallu i fonitro bioamrywiaeth y môr i'n galluogi i asesu cyflwr ac iechyd ein hecosystem forol yn fwy effeithiol ac effeithlon, gan ein galluogi i ddeall tueddiadau a dylanwad gweithgareddau dynol ar yr amgylchedd morol yn well ac i gefnogi rheoli.
- Gwella ein dealltwriaeth o effeithiolrwydd ymyriadau rheoli presennol yn amgylchedd morol Cymru.

8. Llywodraethu da, cydweithio, cyfnewid gwybodaeth a defnyddio gwyddoniaeth gadarn yn gyfrifol

Llywodraethu

8.1 Mae llywodraethu da yn golygu:

- cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cymesur, cyson ac integredig drwy roi polisiau blaengar ar waith fel rhan o ddull o reoli moroedd Cymru sy'n cael ei arwain gan gynllun, yn rhagofalus, yn seiliedig ar risg ac yn ymaddasu
- cymhwyso Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy i wneud penderfyniadau fel rhan o ddull gweithredu a arweinir gan gynllun a gyflwynir yn unol ag egwyddorion dull ecosystem
- tryloywder h.y. rheoli a chyhoeddi data fel ei fod yn berthnasol, yn hygyrch, yn amserol ac yn gywir⁴, wedi'i gyfuno â dadansoddi a dehongli priodol.

8.2 Mae'n rhaid cefnogi'r llywodraethu hwn drwy ddefnyddio tystiolaeth forol gadarn mewn ffordd synhwyrol gan gydnabod:

- fod ein dealltwriaeth o'r amgylchedd morol yn parhau i ddatblygu drwy ymchwil newydd a chasglu data. Dylai'r gwaith hwn barhau i geisio creu dealltwriaeth ar y cyd a, lle bo angen, cyfleu'n glir unrhyw ansicrwydd gwyddonol
- bod angen tystiolaeth i ddatblygu'r offer sydd eu hangen i reoli ein systemau rheoli morol gwahanol a lleihau'r ansicrwydd wrth wneud penderfyniadau
- bod synthesis tystiolaeth sy'n bodoli eisoes yn sylfaenol bwysig i ddangos gwerth am arian ac yn cyflwyno llwybr clir ar gyfer defnyddio tystiolaeth mewn polisi.

Data

8.3 Mae data sydd wedi'u casglu a'u hansawdd wedi'i sicrhau yn systematig yn hanfodol i dystiolaeth ategol y gellir seilio cyngor arni, fel y mae'r angen i ddehongli data ac ymchwil yn briodol. Mae'r angen cynyddol am well cyngor integredig yn golygu bod yn rhaid rheoli data'n well er mwyn sicrhau bod modd cyflawni asesiadau'n effeithiol er mwyn cefnogi cynlluniau fel cynllunio gofodol, trwyddedu, neu reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.

8.4 Bydd Llywodraeth Cymru a CNC yn parhau i gyfrannu'n weithredol at MEDIN a defnyddio ei ganllawiau a'i egwyddorion i sicrhau:

- data y gellir eu canfod, yn hygyrch, yn rhyngweithredol, y mae modd eu haildefnyddio ac yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol
- bod y modd y casglwyd data am dystiolaeth forol yn dryloyw
- bod data yn cael eu trin yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a rheoliadau data a gwybodaeth berthnasol arall.

8.5 Bydd Llywodraeth Cymru a CNC yn sefydlu neu'n defnyddio'r hyb(iau) ar-lein presennol i helpu i rannu data, tystiolaeth a gwybodaeth forol.

⁴ <https://llyw.cymru/cynllun-data-agored-llywodraeth-cymru>

Seilwaith

- 8.6** Mae gan Gymru seilwaith gwyddonol cryf sy'n gysylltiedig â thystiolaeth forol:
- rhyngddynt, mae prifysgolion Bangor, Abertawe, Aberystwyth a Chaerdydd yn creu cymuned academaidd gref ar gyfer y môr a physgodfeydd yng Nghymru, gydag arbenigedd ychwanegol mewn sefydliadau eraill, e.e. Amgueddfa Genedlaethol Cymru
 - mae CNC yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o arolygu, monitro a dehongli gwahanol agweddau ar yr amgylchedd morol ac arfordirol ac mae'n hyrwyddo ac yn hwyluso ymchwil
 - gwyddonwyr pysgodfeydd a llongau Llywodraeth Cymru sydd â gallu ymchwilio uwchdechnolegol.
- 8.7** Er bod llawer o enghreifftiau o gydweithio ar draws y meysydd hyn (e.e. SEACAMS, ECOSTRWYTHUR, prosiectau CoastWEB), mae'n amlwg bod lle i wella'r broses o gydgylltu cyfleusterau ac asedau cyfredol, gan gynnwys llongau arolwg.
- 8.8** Cynigir y dylid cynnal prosiect i ddatblygu ffyrdd agosach, mwy effeithlon o ddefnyddio seilwaith tystiolaeth forol yng Nghymru, gan gynnwys rhaglenni cychod ymchwil.
- 8.9** Efallai y bydd cyfle yng Nghymru hefyd i ddefnyddio seilwaith fel llongau a labordai drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau mewn rhannau eraill o'r DU fel CEFAS ac Asiantaeth yr Amgylchedd). Bydd cydweithredu o'r fath yn dibynnu ar adeiladu ar berthnasau gwaith presennol a sicrhau rhannu blaenoriaethau strategol ac ymgysylltiad â grwpiau cynllunio a chydgylltu perthnasol y DU.
- 8.10** Gan edrych i'r dyfodol, mae'n amlwg y bydd technolegau a chymwysiadau newydd a rhai sy'n datblygu, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial (AI), synwryddion lloeren a cherbydau annibynnol a weithredir o bell yn chwarae rhan gynyddol yn y ffordd rydym yn casglu data o'n hamgylchedd morol. Bydd profi'r ffordd orau o harneisio ac integreiddio technolegau o'r fath gyda'r seilwaith presennol i gyflawni ein gofynion gwyddoniaeth a pholisi hirdymor yn parhau i fod yn faes heriol, ond mae'n angenrheidiol er mwyn sicrhau manteision y datblygiadau hyn.

Cydweithio a chyfnewid gwybodaeth

- 8.11** Mae gostyngiad yng nghyllid y sector cyhoeddus ynghyd â heriau yn ymwneud ag ymadael â'r UE yn ei gwneud yn hanfodol bod cymuned tystiolaeth forol Cymru yn cynyddu ei chydweithrediad, yn rhannu gwasanaethau lle y bo'n ymarferol ac yn manteisio i'r eithaf ar werth ychwanegol ei gweithgareddau. Ni all un sefydliad gyflawni'r blaenoriaethau tystiolaeth a amlygir yn y strategaeth hon.
- 8.12** Mae Platfform yr Amgylchedd Cymru yn uno prifysgolion, canolfannau ymchwil ac eraill gyda'r nod o drosi ymchwil i dystiolaeth o ansawdd uchel ar gyfer Llywodraeth Cymru a CNC. Gwneir hyn drwy hwyluso cydweithio a chefnogi cyfnewid arbenigedd a sgiliau ymysg ymchwilwyr, llunwyr polisi ac ymarferwyr.
- 8.13** Mae maint yr heriau yn mynd y tu hwnt i'n ffiniau sy'n golygu bod cydweithredu ar lefel y DU yn hanfodol – mae "Foresight Future of the Sea" (heb gyfieithu hwn – prosiect ledled y DU) yn benodol yn darparu fframwaith wrth i ni gydweithio gyda sefydliadau megis:
- Agri-Food and Biosciences Institute (AFBI)
 - Cefas

- Defra
- Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
- MMO
- MSCC
- Marine Scotland
- Natural England (NE)
- Cyrff anllywodraethol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Scottish National Heritage (SNH)
- Prifysgolion ledled y DU
- UKRI
- Asiantaeth yr Amgylchedd

Byddwn hefyd yn chwilio am fwy o gydweithio â chyrff diwydiant, yn enwedig i ymchwilio i'r posibilrwydd o rannu data.

- 8.14** Bydd cynlluniau gweithredu i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth hon yn dechrau'n rheolaidd gydag ystyriaeth i weld a oes prosiectau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru/Lloegr neu'r DU, neu rai arfaethedig, a allai ddiwallu'r angen am dystiolaeth yng Nghymru.
- 8.15** Ceisir ymgysylltiad ehangach ag UKRI er mwyn cryfhau'r cysylltiadau rhwng polisi a'r gymuned wyddoniaeth, gan sicrhau defnydd effeithlon a chyflym o amserlenni polisi.
- 8.16** Mae cydweithio rhyngwladol yn arbennig o bwysig gyda Chyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES), Comisiwn OSPAR a Chyngor Prydain-Iwerddon. Mae gwyddonwyr yng Nghymru yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol ac mae ganddynt gysylltiadau sefydledig â'r rhain a sefydliadau cyfatebol. Byddwn yn gweithio gyda hwy i sicrhau ein bod yn elwa o weithio ar y cyd ac yn dylanwadu ar raglenni tystiolaeth rhyngwladol sy'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau.
- 8.17** Bydd y gwerth a ddaw o'r rhaglen o weithgarwch tystiolaeth forol gymhwysol (a'r cynllunio gweithredu a fydd yn deillio o'r Strategaeth hon) yn dibynnu ar ba mor effeithiol y caiff y canlyniadau eu rhannu a'u defnyddio. Rydym yn annog y defnydd o dystiolaeth forol o Gymru mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, ac yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o ddarparu tystiolaeth i gefnogi datblygiad polisi ac ymarfer.
- 8.18** O 2019, byddwn yn cynnal cynhadledd dystiolaeth forol bob dwy flynedd lle y bydd Llywodraeth Cymru, CNC a'n rhanddeiliaid ym maes tystiolaeth forol yn cael eu gwahodd i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned tystiolaeth forol am eu prosiectau a'u canfyddiadau. Cynhelir y gyntaf o'r rhain yn Abertawe ym mis Medi 2019.

9. Gweithredu a Chyflawni

- 9.1 Bydd y broses strategol o fonitro ac adolygu'r Strategaeth a chynllunio gweithredu yn gyfrifoldeb i banel Llywodraeth Cymru a CNC. Bydd y panel a chynllunio gweithredu yn ymwybodol o'r gofynion tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli, llawer ohonynt yn statudol, sy'n ymwneud â thystiolaeth forol a physgodfeydd. Bydd y panel yn datblygu dull o flaenoriaethu prosiectau tystiolaeth yn y dyfodol.
- 9.2 Bydd y panel yn monitro'r gwaith o weithredu cynlluniau gweithredu tystiolaeth yn flynyddol yn ogystal ag adolygu'r gwersi a ddysgwyd o weithio ar y cyd a gweithio mewn partneriaeth. Bydd canlyniadau'r adolygiadau blynyddol yn cael eu dogfennu a'u cyhoeddi ar-lein. Caiff y Strategaeth ei hadolygu ar ddiwedd ei hoes i helpu i arwain Strategaeth Tystiolaeth Forol nesaf Cymru o 2025.
- 9.3 Bydd y panel, a'r gwaith cysylltiedig ar fonitro ac adolygu'r Strategaeth a'r cynllun cyflawni, yn cael eu cefnogi gan swyddogion yn Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru. Lle y bo'n briodol, bydd y panel yn ceisio ymgysylltu ag Is-adrannau ehangach i ddiwallu anghenion o ran tystiolaeth sydd uwchlaw rhaniad morol a daearol syml.
- 9.4 Bydd Llywodraeth Cymru a CNC yn ffurfio rhwydwaith (a oruchwylir gan y panel) i gydgyssylltu cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru a CNC ar grwpiau tystiolaeth forol allweddol Llywodraeth y DU (a restrir yn Atodiad 2).



© Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

10. Atodiad 1 – Dolenni i Ffynonellau Tystiolaeth Allweddol

- Adroddiad Adran 18 CNC o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010:
www.naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/reports-evidence-and-data-on-flooding/flood-and-coastal-erosion-risk-in-wales/?lang=cy
- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol CNC (SoNaRR):
www.naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy
- Adroddiad Tystiolaeth Forol Cymru:
www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/adroddiad-ar-dystiolaeth-morol-cymru-crynodeb.pdf
- Adroddiadau Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (MSFD):
 - Strategaeth Forol y DU Rhan 1: Asesiad Cychwynnol y DU a Statws Amgylcheddol Da –
www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69632/pb13860-marine-strategy-part1-20121220.pdf
 - Strategaeth Forol y DU Rhan 2: Rhaglenni Monitro Morol –
www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/341146/msfd-part-2-final.pdf
 - Strategaeth Forol y DU Rhan 3: Rhaglen o Fesurau –
www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/486623/marine-strategy-part3-programme-of-measures.pdf
- Adroddiadau dŵr ymdrochi: www.gov.uk/government/collections/bathing-waters
- Adroddiadau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Erthygl 17) ac Amrywiaeth Fiolegol (Erthygl 26):
www.archive.jncc.gov.uk/page-6397
www.jncc.gov.uk/our-work/convention-on-biological-diversity-cbd/#reporting
- Adroddiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr:
www.waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/
www.naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/river-basin-management-plans/river-basin-management-plans-published/?lang=cy
- Arolwg Cenedlaethol Cymru: www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru
- Asesiadau Ansawdd Pysgod Cregyn:
www.naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/water-quality/shellfish-water-protected-areas/?lang=cy
www.cefas.co.uk/cefas-data-hub/food-safety/classification-and-microbiological-monitoring/england-and-wales-classification-and-monitoring/shellfish-monitoring-results/

- Aseidiadau cyflwr dangosol nodweddion ar gyfer Safleoedd Morol Ewropeaidd (EMS): www.naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/indicative-feature-condition-assessments-for-european-marine-sites-ems/?lang=cy
- Aseidiadau Cymeriad Morwedd Cenedlaethol a Lleol ar gyfer Cymru: www.naturalresources.wales/media/682028/mca-00-technical-report-summary-method-appendix.pdf
- Aseidiadau Ecosystemau Cenedlaethol y DU: www.uknea.unep-wcmc.org/
- Datblygu Teipoleg Arfordirol Gymunedol ar gyfer Cymru: www.llyw.cymru/datblygu-teipoleg-arfordirol-gymunedol?_ga=2.93924829.156344306.1567412868-1880445810.1556273325
- Datganiadau Ardal: www.naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=cy
- Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPA): www.llyw.cymru/fframwaith-rheoli-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchoddedig-cymru
- Mapiau perygl llifogydd ac erydiad: www.naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/long-term-flood-risk/?lang=cy
- OSPAR yn cynnwys Adroddiad ar Statws Ansawdd: www.oap.ospar.org/en/ospar-assessments/quality-status-reports/ ac Aseidiadau Canolradd: www.oap.ospar.org/en/ospar-assessments/intermediate-assessment-2017/
- Partneriaeth Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd ar y Môr (MCCIP) a chardiau adrodd ac UKCP18: www.mccip.org.uk/
- Porth-Daear Lle: www.lle.gov.wales/home?lang=cy
- Porthol Cynllunio Morol Cymru: www.lle.gov.wales/apps/marineportal/?lang=cy#lat=52.5145&lon=-3.9111&z=8&layers=231
- Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol: Datblygu Strategaeth Genedlaethol i Gymru: www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-06/asesiad-amgylcheddol-strategol-adroddiad-amgylcheddol.pdf
- Sefyllfa Byd Natur – adroddiadau Cymru: www.rspb.org.uk/our-work/conservation/projects/state-of-nature-reporting/
- Y Gyfnewidfa Data Morol: www.marinedataexchange.co.uk/

11. Atodiad 2 – Grwpiau Tystiolaeth Forol Allweddol y DU

Strategaeth gwyddoniaeth forol

Grŵp Llywio Tystiolaeth Pysgodfeydd Morol (MFESG)

Pwyllgor Cydlynu Gwyddor Forol (MSCC)

Grŵp Asesu Ac Adrodd Morol (MARG)

MSCC (Twf Dynol ac Economaidd)

Grŵp Cyswllt y Diwydiannau Morol

Grŵp Gorchwyl Gwyddorau Cymdeithasol

Strategaeth Monitro Ac Asesu Morol y DU (UKMMAS)

Grŵp Tystiolaeth Prosesau'r Cefnfor (OPEG)

Rhwydwaith Arsylwi Morol Integredig y DU

Grŵp Tystiolaeth Moroedd Glân a Diogel (CSSEG)

Grŵp Tystiolaeth Moroedd Iach ac Amrywiol yn Fiolegol (HBDSEG)

Grŵp Tystiolaeth Moroedd Cynhyrchiol (PSEG)

Partneriaeth Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd ar y Môr (MCCIP)

Fforwm Sain Tanddwr

Rhwydwaith Data a Gwybodaeth Amgylcheddol Morol (MEDIN)

Gweithgor Llongau Ymchwil

Arall

Grŵp Llywio Tystiolaeth Bioamrywiaeth Forol

Grŵp Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPAG)

Grŵp Tystiolaeth Effeithiau Bioamrywiaeth y Môr

Grŵp Datblygu ac Ymchwil Rhywogaethau Estron Morol a Dŵr Croyw

Grŵp Cyswllt Datblygu ac Ymchwil Eogiaid a Dŵr Croyw